O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 1177 (Cy. 208)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Traffig Unffordd Dros Dro) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Gorffennaf 2019* |
| *Yn dod i rym* | *3 Awst 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Traffig Unffordd Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 3 Awst 2019.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; ac

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i'r Dwyrain o Gonwy.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, tua'r de ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Heol Dinbych hyd at ei chyffordd â'r B5106 (wrth barapet deheuol y Bont Fawr).

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Gorffennaf 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru